O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1718 (Cy. 223)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Parc Navigation i Gylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed *3 Gorffennaf 2012*

Yn dod i rym *16 Gorffennaf 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caerdydd - Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Gorffennaf 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Parc Navigation i Gylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 16 Gorffennaf 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd, ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n ymestyn o bwynt ar ddechrau trwyniad corfforol y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth